**Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

**Hysbysiad Preifatrwydd Cwynion ac Adolygiadau:**

**Pwy ydym ni**

Mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (SCHTh) yn cynnig cefnogaeth i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau. Mae hyn yn cynnwys dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflwyno plismona lleol, gosod a diweddaru cynllun heddlu a throsedd, gosod cyllideb a praesept ac ymgysylltu â'r cyhoedd a chymunedau o fewn yr ardal plismona.

Prif Weithredwr SCHTh yw rheolwr data'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei brosesu, os na nodir yn wahanol.

Gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd.

Drwy e-bost: OPCC@nthwales.pnn.police.uk

Ffôn: 01492 805486

Drwy'r post: Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy
LL29 8AW

Y Swyddog Diogelu Data (DPO) yw’r Swyddog Gweithredol a gellir cysylltu â fo/hi drwy’r cyfeiriad uchod. Nodwch bob gohebiaeth at sylw'r DPO.

**Pwrpas yr hysbysiad preifatrwydd hwn**

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn eich cynghori sut y bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin (prosesu) gan y SCHTh a'ch hawliau yng nghyswllt y prosesu hwnnw.

Mae gan SCHTh gyfrifoldeb am ddelio ag unrhyw gwynion a wneir yn uniongyrchol am Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru.

**Cyrff Adolygu Perthnasol**

O 1 Chwefror 2020, Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) a SCHTh fydd yr awdurdod priodol i ddelio ag adolygiadau sy'n gysylltiedig â chwynion sydd wedi eu cofnodi gan Heddlu Gogledd Cymru o'r dyddiad hwn ymlaen.

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) yw'r corff adolygu lle–

i. mai’r awdurdod priodol yw CHTh
ii. mae'r gŵyn yn ymwneud ag ymddygiad uwch swyddog (swyddog ar reng uwch na phrif uwcharolygydd)
iii. nid yw'r awdurdod priodol yn fodlon, o'r gŵyn yn unig, nad yw’r ymddygiad y cwynir amdano (os oedd posib ei brofi) yn cyfiawnhau dod â gweithdrefnau disgyblu neu ni fyddai'n cynnwys tramgwyddo hawliau rhywun o dan Erthygl 2 neu 3 y Confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol
iv. mae'r gŵyn wedi cael ei chyfeirio neu raid iddi gael ei chyfeirio at yr IOPC
v. mae'r IOPC yn trin y gŵyn fel un sydd wedi ei chyfeirio (yr adwaenir hefyd fel ‘gallu? menter’)
vi. mae'r gŵyn yn codi o'r un digwyddiad fel cwyn yn disgyn o fewn ii- v –
vii. Os yw unrhyw ran o'r gŵyn yn disgyn o fewn ii-vi

Mewn unrhyw achos nad yw wedi ei restru uchod SCHTh yw'r corff perthnasol.

Os ydych yn gofyn am adolygiad, bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu rhwng SCHTh, IOPC a Heddlu Gogledd Cymru. Er mwyn cynorthwyo SCHTh i ymateb i unrhyw geisiadau ar gyfer adolygiad o gŵyn wedi i'r ymchwiliad cychwynnol gael ei gwblhau gan Heddlu Gogledd Cymru, cytunwyd bod y broses o adolygu'r gŵyn yn cael ei allanoli. Er bydd y cyfrifoldeb dros wneud y penderfyniad terfynol yn aros gyda SCHTh. Bydd angen i'ch gwybodaeth hefyd gael ei rhannu gyda Sancus a fydd yn gwneud y broses adolygu ar ein rhan.

Mae gan SCHTh gyfrifoldeb statudol i fonitro sut mae cwynion a materion disgyblaeth o fewn Heddlu Gogledd Cymru yn cael eu trin. Mae hyn yn digwydd drwy'r broses samplo ar hap. Mae'r cwynion yn cael eu dethol o restr ddienw gyda dim ond y cwynion sy'n cael eu dewis fel rhan o'r broses samplo ar hap sy’n cael mynediad i'r system gwynion yn ystod yr adolygiad.

Am fwy o wybodaeth am Heddlu Gogledd Cymru a'u Swyddog Diogelu Data, ewch ar eu gwefan.

**Pa wybodaeth a gasglwn amdanoch chi?**

Rydym yn casglu ystod o wybodaeth amdanoch chi. Gall hyn gynnwys:

- eich enw, cyfeiriad a manylion cyswllt, yn cynnwys cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, dyddiad geni, oed a galwedigaeth;
- enw, cyfeiriad a manylion cyswllt, yn cynnwys e-bost, rhif ffôn, dyddiad geni, oed a llofnod a dyddiad geni, oed a galwedigaeth unrhyw aelod o'r teulu, cyfaill neu gyfreithiwr y penodwch i weithredu ar eich rhan;
- gwybodaeth am eich statws priodasol, eich perthynas agosaf, dibynyddion a chysylltiadau mewn achos o argyfwng;
- monitro gwybodaeth cyfleoedd cyfartal, yn cynnwys gwybodaeth am eich cefndir ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, rhywedd, anabledd a chrefydd neu gred;
- manylion a dogfennau yn ymwneud â'r amgylchiadau/digwyddiad/ymgysylltiad â Heddlu Gogledd Cymru sydd wedi arwain at wneud cwyn yn erbyn y Prif

Gwnstabl neu ofyn am adolygiad o'ch cwyn a gafodd ei drin gan Heddlu Gogledd Cymru;
- unrhyw gysylltiad parhaus sydd gennych gyda Heddlu Gogledd Cymru a SCHTh tra bod y gŵyn yn cael ei hymchwilio neu tra bod yr adolygiad yn digwydd;
- ffotograffau sydd o bosib yn cynnwys lluniau ohonoch chi er enghraifft ar gamera CCC;
- unrhyw wybodaeth arall y dewiswch ei rhoi i ni sy'n berthnasol i'ch cwyn.

Rydym yn casglu'r wybodaeth yma mewn nifer o ffyrdd fel drwy e-bost, llythyr neu ddefnydd o'r ffurflen gwynion ar wefan SCHTh. Os ydych wedi cysylltu â Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) efallai y byddant yn cyfeirio eich cais atom ni i ddelio â hi i gychwyn.

**Beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol?**

Mae Adran 22 Deddf Diwygio’r Heddlu 2002 yn gofyn i heddluoedd gadw at Arweiniad Statudol yr IOPC i'r gwasanaeth heddlu ar drin cwynion. Mae Deddf Plismona a Throsedd 2017 yn rhoi'r grym i'r CHTh fabwysiadu unrhyw un o'r swyddogaethau a roddir i Brif Gwnstabl heddlu o ran cwynion. Daeth Rheoliadau (Cwynion a Chamymddwyn) yr Heddlu 2020 sy'n rhoi manylion sut mae cwynion ac adolygiadau cwynion a gofnodir yn ffurfiol i rym ar 1 Chwefror 2020. Mae'r ddeddfwriaeth hon felly yn gosod rhwymedigaeth ar CHTh i brosesu eich gwybodaeth bersonol yng nghyswllt yr holl gwynion a wnaed yn erbyn y Prif Gwnstabl. Gwneir hefyd lle mae cais wedi ei wneud ar gwynion wedi eu cofnodi o 1 Chwefror 2020.

Mae Gorchymyn Protocol Plismona 2011 Paragraff 17 (n) fel y cyhoeddwyd o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y CHTh i fonitro pob cwyn a wneir yn erbyn swyddogion heddlu a staff yr heddlu.

Pan fyddwn yn prosesu categorïau arbennig o ddata personol fel gwybodaeth am dras ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, trawsrywedd, iechyd, crefydd neu gred, gwneir hyn er mwyn dibenion monitro cyfleoedd cyfartal neu fel rhan o'ch cwyn neu adolygiad.

Ceir gwybodaeth bellach ar y broses apelio/adolygu ar ddolen ganlynol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu:

https://policeconduct.gov.uk/complaints-reviews-and-appeals/reviews-and-appeals

**Rhannu eich data personol**

Gall eich gwybodaeth gael ei rhannu’n fewnol o fewn SCHTh, Heddlu Gogledd Cymru, Sancus sydd wedi cael y gwaith o adolygu'r broses ar ein rhan, yr IOPC ac unrhyw unigolyn neu sefydliad yr ydych wedi gofyn iddynt weithredu ar eich rhan. Dim ond staff sy'n gofyn am fynediad i'ch data er mwyn ein galluogi i gyflawni ein dyletswyddau yng nghyswllt cofnodi a thrin eich cwyn fydd yn cael mynediad ato. Ni fyddwn yn anfon gwybodaeth ymlaen at drydydd parti ac eithrio lle mae'n hanfodol i ddatrys eich cwyn neu lle mae gofyn i ni wneud yn unol â'r gyfraith.

Os bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu gyda ffynhonnell allanol yna byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn ddiogel.

Os nad ydych am i ni rannu eich gwybodaeth bersonol gyda Heddlu Gogledd Cymru neu gyda Sancus a fydd yn prosesu adolygiadau ar ein rhan, yna ni fyddwn yn gallu ymchwilio i'ch cwyn/adolygiad ymhellach.

**Am faint o amser y byddwn yn cadw eich data personol?**

Cedwir data personol yn unol â'n Polisi Cadw a Gwaredu. Mae polisi cynnal SCHTh wedi ei ddrafftio yn unol ag arweiniad Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion Heddlu (CCPSH) ar gadw cofnodion. Felly bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw am chwe blynedd o ddiwedd cau'r ymchwiliad neu chwe blynedd o ddiwedd unrhyw sancsiwn pe bai'r mater yn arwain at ddisgyblu.

Gall y cofnod gael ei gadw ar ôl chwe blynedd ar ddisgresiwn y Prif Weithredwr.

Nid oes gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw gan y SCHTh pan fydd y broses samplo ar hap yn digwydd.

**Sut ydym yn cadw eich gwybodaeth yn ddiogel?**

Mae'r SCHTh yn cymryd diogelwch eich data o ddifrif. Mae gennym bolisïau a rheoliadau mewnol yn eu lle i sicrhau nad yw eich data yn cael ei golli, ei ddinistrio yn ddamweiniol, ei gam-drin neu ei ddatgelu, a dim ond ei weithwyr sy'n cael mynediad ato yn rhinwedd eu dyletswyddau. Mae mynediad i'ch gwybodaeth bersonol sy'n cael ei chadw ar y system gwynion wedi ei chyfyngu i'r unigolion hynny sydd ei angen a dim ond Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Gogledd Cymru all ei ddarparu.

**Eich hawliau yng nghyswllt eich data personol**

O dan gyfraith diogelu data, mae gennych hawliau y mae'n rhaid i ni eich gwneud yn ymwybodol ohonyn nhw. Mae'r hawliau sydd ar gael i chi yn dibynnu ar ein rheswm dros brosesu eich gwybodaeth.

- Eich hawl i gael mynediad
- Eich hawl i gywiro
- Eich hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl
- Eich hawl i gyfyngu prosesu
- Eich hawl i wrthwynebu prosesu
- Eich hawl i gludo data

Ceir gwybodaeth bellach yng nghyswllt yr hawliau hyn yn ein hysbysiad preifatrwydd cyffredinol sydd ar gael ar ein gwefan.

**Newidiadau i'r Hysbysiad Preifatrwydd**

Rydym yn adolygu ein hysbysiadau preifatrwydd yn rheolaidd i wneud yn siŵr ei fod yn gyfredol ac yn gywir.

**Os nad ydych yn fodlon**

Rydym yn gosod safonau uchel iawn ar gyfer casglu a'r defnydd priodol o ddata personol ac yn cymryd cwynion o ddifri. Hoffem dynnu eich sylw at unrhyw adeg y credwch fod y defnydd o ddata yn annheg, yn gamarweiniol neu yn amhriodol. Rydym hefyd yn croesawu unrhyw welliannau. Cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data yn SCHTh yn gyntaf.

Os nad ydych yn hapus ar ôl cysylltu â'n Swyddog Diogelu Data, gallwch wneud cwyn gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru,
2il lawr, Tŷ Churchill,
Ffordd Churchill,
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 01625 545297

Ffacs: 029 2067 8399
E-bost: wales@ico.org.uk

**Diweddarwyd 1 Chwefror 2020**